# Arfer Da a Blaengaredd Ymgysylltiad Cymunedol yng nghyswllt Safon Ansawdd Craidd 12

Cyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysedd Cyhoeddus
2012-2013

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | **2** |
| Safon Ansawdd Craidd 12 | **2** |
| Arfer da a blaengaredd ymgysylltiad cymunedol | **3** |
| Sut i ddefnyddio'r enghreifftiau yn y canllaw hwn i wella eich arferion | **3** |
| Rheoli ymgysylltiad cymunedol - Gwneud y defnydd gorau o adnoddau | **4** |
| Safon Ansawdd Craidd 12.1 | **6** |
| Safon Ansawdd Craidd 12.2 | **13** |
| Safon Ansawdd Craidd 12.3 | **16** |
| Safon Ansawdd Craidd 12.4 | **21** |
| Atodiad A Rheolwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol | **27** |
| Atodiad B Esboniad o'r Termau a Rhestr o Fyrfoddau | **29** |

## Cyflwyniad

Mae Safon Ansawdd Craidd 12 yn nodi'r safon ymgysylltiad cymunedol ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS):

**Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau fel ein bod yn ymwybodol o'u pryderon pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau**

Mae Safon Ansawdd Craidd 12 yn creu'r peirianwaith i'r cyhoedd fedru dal y CPS i gyfrif am y ffordd y mae'n cyflawni o'i gymharu â'r holl safonau yn y Safonau Ansawdd Craidd. Mae'n nodi "byddwn yn ymgysylltu â chymunedau fel ein bod yn ymwybodol o'u pryderon pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau". Mae pedair elfen i'r safon hon sef:

**12.1 Rydym yn esbonio ein rôl i'n cymunedau lleol ac yn ymgynghori â nhw am yr hyn y dylai ein blaenoriaethau fod trwy grwpiau a phaneli cymunedol**

**12.2 Mae'r Grwpiau a'r Paneli Craffu yn rhoi adborth ar y ffordd y mae'r cymunedau yn debygol o weld y penderfyniadau a wnawn a'n gweithdrefnau trin achosion**

**12.3 Rydym yn defnyddio adborth i adolygu sut yr ydym yn cynnal ein hachosion**

**12.4 Rydym yn gweithio gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol i ymateb i'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg mewn cymdogaethau a chymunedau, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol**

Gellir lawr lwytho copi llawn o Safonau Ansawdd Craidd y CPS o wefan y CPS trwy'r ddolen ganlynol:
www.cps.gov.uk/publications/core_quality_standards/preface_and_introduction.html

Er mwyn asesu perfformiad y CPS ar draws y gwasanaeth o'i gymharu â Safon Ansawdd Craidd 12, mae'r Gyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysedd Cyhoeddus (PAID) yn cynnal asesiad blynyddol i fesur perfformiad o'i gymharu â'r safon. Gwneir hyn trwy gyflwyniadau blynyddol yn ôl Ardal CPS, Adrannau Gwaith Achos a CPS Direct sy'n cael eu gwerthuso gan PAID.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn rydym yn dynodi enghreifftiau o arfer da a blaengaredd yn y cyflwyniadau a dderbyniwyd, er mwyn dathlu'r gwaith ymgysylltiad cymunedol da a wnaed ac i rannu arfer da a'r gwersi a ddysgwyd yn genedlaethol.

## Arfer da a blaengaredd cymunedol

Diffinnir **Arfer Da** fel cyflawni a chyflenwi'r hyn sy'n ofynnol yn effeithiol ac i safon uchel o ran perfformiad. Gall hyn fod yn unrhyw elfen o gynllunio, cyflawni, rheoli, neu werthuso ymgysylltiad cymunedol neu unrhyw agwedd arall. Er enghraifft, gall fod yn ddull/ddulliau a ddefnyddiodd Ardal i ddynodi pryderon lleol allweddol, gall fod yn ffordd y mae Ardal yn rheoli, gwerthuso ac adrodd ar berfformiad ar ymgysylltiad cymunedol trwy ei system rheoli perfformiad prif-ffrwd neu sut y mae Ardal CPS wedi ymgysylltu â chymunedau nad oedd ganddi gysylltiad â nhw cynt. Yn allweddol, gall fod yn enghraifft o fuddion busnes sylweddol a gyflawnwyd trwy weithredu ar adborth a dderbyniwyd trwy weithgaredd ymgysylltiad cymunedol. Hoffai PAID ddynodi arfer da yn lleol a'i rannu ar draws y CPS fel bod pob Ardal yn gallu ei ystyried a'i ddefnyddio yn lleol pe byddai'n addas.

Diffinnir **Blaengaredd** fel creu, gweithredu a chyflawni rhywbeth sy'n unigryw a gwreiddiol – y mae tystiolaeth ei fod yn gweithio i safon uchel ac yn cyflawni'r canlyniadau dymunol/a ragwelwyd. Un enghraifft o flaengaredd yw creu Panel Craffu Troseddau Casineb (HCSP) gan CPS Swydd Efrog a Glannau Humber – rhywbeth nad oedd yn ofynnol trwy bolisi cenedlaethol ond a ddyfeisiwyd yn yr Ardal. Wedi iddo gael ei werthuso yn annibynnol, mabwysiadwyd hyn fel polisi cenedlaethol gan y CPS a'i gyflwyno yn genedlaethol – olyniaeth y syniad hwn yw'r Paneli Craffu ac Ymlyniad Lleol (LSIPau) sy'n gweithredu ar draws y CPS. Hoffai PAID ddynodi blaengaredd lleol a'i asesu a'i werthuso er mwyn penderfynu a ddylid ei argymell neu ei fabwysiadu fel polisi cenedlaethol.

## Sut i ddefnyddio'r enghreifftiau yn y canllaw hwn i wella eich arferion

Enghreifftiau o arfer da a blaengaredd o'n Hardaloedd, CPS Direct ac Adrannau Gwaith Achos sydd yn dilyn. Rhestrir yr enghreifftiau o arfer da a blaengaredd yn y ddogfen hon dan bob un o'r prif benawdau ac yna yn ôl y meini prawf asesu er mwyn eu gwneud yn haws eu defnyddio ac fel ei bod yn haws cysylltu pob arfer da a blaengaredd â phob maen prawf.

Sylwer mai bwriad nodi enghreifftiau o arfer da a blaengaredd yw eu rhannu ar draws y CPS i alluogi Ardaloedd/Adrannau eraill eu hystyried a'u hymgorffori, fel arferion addas a pherthnasol, yng ngweithgareddau pob Ardal/Adran i wella perfformiad, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ar ymgysylltiad cymunedol.

Ni ddylid ailadrodd yr enghreifftiau hyn yn unig heb ystyried neu asesu eu haddasrwydd. Bydd raid i chi ystyried amgylchiadau lleol, perfformiad ar hyn o bryd, demograffeg leol a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant o ran ymgysylltiad

cymunedol. Wrth ystyried yr enghreifftiau o arfer da a blaengaredd, manteisiwch ar y cyfle i gysylltu â'r unigolyn perthnasol o'r Ardal/Adran, fel y'u rhestrir yn Atodiad A, er mwyn cael y cefndir/amgylchiadau fel rhan o'ch asesiad a fyddai o fudd mabwysiadu'r arfer hwnnw yn eich Ardal/Adran.

Efallai y byddwch, ar ôl ystyried enghraifft, yn ei haddasu ac yn gweld bod y modd y mae'n cael ei gweithredu yn wahanol er mwyn gweddu â'ch amgylchiadau penodol chi. Neu fe allwch weithredu elfen benodol o'r arfer da yn hytrach na'r cyfan ohono. Y peth pwysig yw y dylech ei werthuso cyn ei weithredu a pharhau i gadw golwg i sicrhau ei fod yn creu'r manteision a fwriadwyd.

## Rheoli ymgysylltiad cymunedol – Gwneud y defnydd gorau o adnoddau

Mae'r adran hon yn crynhoi'r arferion o'r holl feini prawf Safon Ansawdd Craidd 12 ac mae'n canolbwyntio yn benodol ar arfer da a blaengaredd wrth reoli ymgysylltiad cymunedol sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i ddatblygu arferion ymgysylltiad cymunedol cynaliadwy.

Datblygodd CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr 'Becyn Adnewyddu Gwybodaeth' er mwyn cadw sgiliau a gwybodaeth aelodau paneli am y CPS yn gyfredol sydd wedi cael gwared ar yr angen i gynnig cwrs hyfforddi ffurfiol i aelodau'r paneli. Gweithredodd yr Ardal ddull strategol a lliflin o gynnal cyfarfodydd allanol ac ymgysylltiad cymunedol yn gyffredinol i sicrhau bod pryderon lleol yn cael sylw; bod gweithgaredd ymgysylltiad cymunedol yn cael ei gysylltu â chanlyniadau a bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn fwy effeithiol. Fel rhan o'r rhaglen cyflawni effeithlonrwydd, cychwynnodd yr Ardal adolygiad cynhwysfawr o'r holl gyfarfodydd allanol. O ganlyniad mae'r Ardal wedi annog rhanddeiliaid a phartneriaid i hwyluso mwy o gyfarfodydd rhanbarthol. Er enghraifft, gohiriwyd cyfarfodydd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Swydd Nottingham oherwydd bod llawer o'r materion yma yn cael eu trin ar lefel ranbarthol.

Mae gan CPS Dwyrain Lloegr bartneriaeth flaengar gydag Ysgol y Gyfraith Prifysgol East Anglia lle mae LSIPau yr Ardal yn manteisio ar gefnogaeth gyfreithiol annibynnol pro-bono gan ddau fyfyriwr ôl-raddedig yn y Gyfraith o'r brifysgol. Trwy hyn mae dymuniad aelodau cymunedol y panel am gael cyfraniad cyfreithiol annibynnol i'r paneli yn cael ei fodloni, gan arbed adnoddau staff y CPS wrth gyflawni'r swyddogaeth hon.

Bu CPS Gogledd Orllewin Lloegr, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a Sefydliad Anthony Walker yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r pecyn adnoddau y gall athrawon ei ddefnyddio i archwilio Troseddau Casineb Hiliol a Chrefyddol. Bu disgyblion o ysgolion yng Ngogledd Orllewin Lloegr yn actio

ac yn helpu i greu'r sefyllfaoedd dramatig am ddigwyddiadau Hiliol a Chrefyddol sydd yn y cyflwyniad. Mae'r sefyllfaoedd yn cynnig man cychwyn i'r drafodaeth ac maent yn seiliedig ar brofiadau gwirioneddol pobl ifanc a gymerodd ran yn y prosiect. Mae gweithgareddau dosbarth ac arweiniad i athrawon hefyd ar gael sydd wedi eu dylunio i gynyddu dealltwriaeth disgyblion o Droseddau Casineb a rhagfarn a'u galluogi i archwilio ffyrdd o'u herio. Cynlluniwyd y pecyn i'w gyflwyno gan athrawon yn hytrach nag erlynyddion y CPS felly nid yw'n dibynnu ar argaeledd staff a gellir ei gwblhau ar raddfa fwy, gan gyrraedd cynulleidfa ehangach. Isod mae dolen i'r adnodd:

http://www.cps.gov.uk/northwest/tackling_crime/hate_crime/schools_project_racist_and_religious_hate_crime/

Tynnodd CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer ar wybodaeth, sgiliau ac arbenigedd aelodau o'r LSIP a phartneriaid o'r gymuned ehangach er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff CPS ar draws ystod o faterion, yn arbennig y rhai sydd ag agweddau cymdeithasol a diwylliannol mwy cymhleth e.e. Troseddau Casineb Anabledd, Priodas Dan Orfod, Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd, ac Anffurfio Organau Rhywiol Menywod, ymwybyddiaeth o Lesbiaid, Hoywon, Deurywedd a Thrawsrywedd a Chyflwyniad i Islam. Yn ogystal â rhoi tystiolaeth o ymrwymiad yr Ardal i gryfhau ei dealltwriaeth o faterion sy'n effeithio ar y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, mae'r strategaeth hon wedi cynnig cyfleoedd hanfodol i'r staff ddysgu.

Gwnaeth CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr a Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr gais llwyddiannus i'r Swyddfa Gartref am arian i gynnal cyfres o weithgareddau ymgysylltiad cymunedol gyda phobl ifanc; gan eu haddysgu am y camau sydd ar gael i ddiogelu tystion ac am y drefn ddedfrydu am droseddau yn ymwneud â gynnau a chyllyll.

## 12.1 Rydym yn esbonio ein rôl i'n cymunedau lleol ac yn ymgynghori â nhw am yr hyn y dylai ein blaenoriaethau fod trwy grwpiau a phaneli cymunedol

Mae'r adran hon yn crynhoi'r arferion o'r meini prawf Safon Ansawdd Craidd 12.1 ac mae'n canolbwyntio yn benodol ar arfer da a blaengaredd wrth reoli ymgysylltiad cymunedol sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i ddatblygu arferion ymgysylltiad cymunedol cynaliadwy.

12.1a Dadansoddiad/tystiolaeth o strategaeth/cynllun a gweithgaredd ymgysylltiad sydd wedi eu diffinio ac yn canolbwyntio yn glir yn cael eu gweithredu ar draws yr Ardal ar sail dadansoddiad o wybodaeth leol i sicrhau bod rôl y CPS yn cael ei deall yn fwy eang ac yn cynyddu hyder.

**Arfer Da** – Mae strategaethau ymgysylltiad cymunedol y mwyafrif o Ardaloedd wedi ei seilio ar wybodaeth gan gymunedau lleol ac ymgynghorwyd â'r LSIPau arnynt.

Mae strategaeth ymgysylltiad cymunedol CPS Llundain yn cynnwys mewnbwn gan yr LSIP ac fe'i datblygwyd trwy gyfuniad o ddadansoddiad o ddata perfformiad Ardal, proffiliau cymunedol lleol a blaenoriaethau busnes y CPS. Ers Ionawr 2012, mae gan y Maer bwerau newydd i osod blaenoriaethau plismona yn Llundain trwy Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddau. Cafodd hyn ddylanwad ar ymgysylltiad cymunedol y CPS yn Llundain a gwneud y CPS yn fwy gweladwy ar draws Llundain.

Mae gan CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr strategaeth ymgysylltiad cymunedol a chynllun gweithredu. Ymgynghorwyd â'r Paneli Ymlyniad Cymunedol ar y strategaeth. Caiff cynnydd ar y cynllun gweithredu ei fonitro gan yr is-grŵp Cydraddoldeb ac Ymgysylltiad Cymunedol o Fwrdd Strategaeth yr Ardal ac mae'r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol (EDECM) yn rhoi'r newyddion diweddaraf ym mhob cyfarfod.

Mae gan CPS Gogledd Orllewin Lloegr strategaeth ymgysylltiad cymunedol a chynllun gweithredu a ddatblygwyd gyda nifer o bartneriaid statudol ac o'r sector gwirfoddol. Mae'r cynllun gweithredu yn ddogfen fyw ac fe'i diweddarir i gynnwys camau gan Gynhadledd Troseddau Casineb Anabledd Cumbria, ymgynghori gyda Phobl Ifanc ar Fwlio Seibr ac adborth gan HCSPau. Datblygwyd y cynllun gweithredu trwy adolygu data perfformiad lleol i amlygu meysydd lle gellid gwella, ymgysylltu â chymunedau trwy'r LSIP, trafodaethau o gwmpas y bwrdd a chynadleddau yn ogystal ag edrych ar yr Amcanion Cydraddoldeb cenedlaethol a dyletswyddau cyffredinol a phenodol Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ardal hefyd yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol

ar ymgysylltiad sy'n cael eu hanfon trwy e-bost at aelodau'r panel, ac maent yn eu rhannu â rhanddeiliaid eraill.

Mae strategaeth ymgysylltiad cymunedol CPS De Orllewin Lloegr yn cael ei seilio ar ganlyniadau ymgysylltu o'r flwyddyn flaenorol, dadansoddiad o berfformiad lleol a blaenoriaethau troseddau gyda phartneriaid a chymunedau ynghyd â strategaethau allweddol cenedlaethol y CPS a'r System Cyfiawnder Troseddol. Felly, y blaenoriaethau ar gyfer ymgysylltiad oedd:

- Trais yn erbyn menywod a merched (VAWG), gan gynnwys troseddwyr sy'n fenywod a chanolfannau menywod;
- Troseddau Casineb, Troseddau Casineb Anabledd yn arbennig;
- Ymgysylltiad ar gynlluniau cyfiawnder adferol;
- Ieuenctid a chymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig;
- Gwella profiadau dioddefwyr a thystion; ac
- Ymgysylltiad ar faterion iechyd meddwl mewn partneriaeth â'r GIG ac asiantaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol.

Datblygodd CPS Cymru strategaeth ymgysylltiad cymunedol a datblygodd flaenoriaethau ar gyfer ymgysylltiad trwy ddadansoddi: data perfformiad, gan gynnwys Troseddau Casineb a VAWG; demograffeg leol; adborth gan gymunedau, dioddefwyr, tystion ac asiantaethau sy'n bartneriaid; canfyddiadau ymchwil; blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; blaenoriaethau busnes lleol a chenedlaethol y CPS; camau dilysu ac argymhellion o adolygiadau ar themâu ac adroddiadau arolygiaeth.

Datblygwyd strategaeth ymgysylltiad cymunedol CPS Swydd Efrog a Glannau Humber trwy ddadansoddi perfformiad lleol a pholisi cenedlaethol ac mae'n nodi pwy mae'r Ardal yn ymgysylltu â nhw a sut ar sail ymrwymiad i gydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaeth. Mae Troseddau Casineb, treisio a Thrais Domestig yn flaenoriaethau yn yr Ardal oherwydd nifer yr achosion aflwyddiannus a/neu'r nifer ac mae llawer o weithgareddau ymgysylltiad cymunedol yr Ardal yn digwydd trwy baneli craffu ar themâu penodol a'r gweithgareddau cysylltiedig. Cysylltir pob cam a nodir yn y strategaeth â budd busnes dymunol/a ragwelir er mwyn cynnig ffocws.

12.1b Dadansoddiad/Tystiolaeth bod ymgysylltu ag ystod o gymunedau ar draws yr Ardal, yn arbennig y grwpiau hynny sydd â 'nodweddion a ddiogelir' a grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned ehangach, a chanlyniad y gweithgaredd yn cael ei werthuso/ddadansoddi i bennu ei lwyddiant i gyrraedd amcanion a chanlyniadau sydd wedi eu diffinio yn glir.

**Arfer Da** – Mae log ymgysylltiad cymunedol CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltiad cymunedol gydag ystod eang o gymunedau sy'n cynrychioli 'nodweddion a ddiogelir' a buddiannau'r gymuned ehangach. Mae'r adroddiad Ymgysylltiad Cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol

i staff ystyried a ydynt wedi cyflawni'r amcanion. Defnyddir log materion ymgysylltiad cymunedol hefyd gan yr Ardal i ddynodi pryderon penodol cymunedau lleol a chofnodi'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r pryderon hyn.
Mae CPS Cymru yn ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau sy'n cynrychioli 'nodweddion a ddiogelir' a buddiannau'r gymuned ehangach ac yn gwneud gwaith parhaus â nhw. Bydd perfformiad ar Safon Graidd 12 a chanlyniad gweithgareddau yn cael eu hadolygu a'u dadansoddi mewn Byrddau Hyder misol, Cyfarfodydd Tîm Rheoli Rhanbarthol misol a chyfarfodydd perfformiad VAWG bob yn ail flwyddyn. Rhaeadrir materion ac argymhellion i Fwrdd Strategaeth yr Ardal. Ymgorfforir perfformiad ar Ymgysylltiad Cymunedol yn Fframwaith Perfformiad Cymru a monitro Safonau Ansawdd Craidd. Cesglir adborth o'r gweithgareddau ar Rwydwaith Wybodaeth Cymru Ar-lein (COLIN) ac fe'u hymgorfforir mewn adroddiadau VAWG a Throseddau Casineb. Mae gweithgaredd ymgysylltiad CPS Cymru yn cynnwys gwaith gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Rhwydwaith Cyfiawnder Cymru a Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg. Mae canlyniadau'r gwaith hwn wedi cynnwys atgyfodi Pwyllgor Iaith Gymraeg y CPS, fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Iaith Gymraeg y CPS a sefydlu rhwydwaith mewnol o ladmeryddion sydd â disgrifiad pendant o'u rôl. Yn y pendraw mae'r gwaith yn sicrhau bod yr Ardal yn cynnig gwasanaeth cyfartal ac o safon i ddioddefwyr, tystion a'r cyhoedd pan fydd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

Comisiynwyd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr ar y cyd ag Allestyn Cyfreithiol Cymunedol Swydd Stafford gan Brifysgol Keele i sicrhau lladmeryddion cymunedol i gefnogi'r rhai sy'n dioddef troseddau. Cymeradwyodd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr y rhaglen, a gefnogir yn gryf gan uwch reolwyr yr Ardal. Nod y rhaglen yw adeiladu, datblygu a hyfforddi lladmeryddion fel dinasyddion gweithredol i gefnogi cymunedau i gynorthwyo o ran anghenion gwasanaeth cyfreithiol.

Datblygodd CPS Direct log LSIP cynhwysfawr o ganlyniad i adborth gan banel Ardal CPS sy'n rhoi crynodeb o achosion, gwersi i'w dysgu, anghenion hyfforddi ac arfer da. Cynhaliodd CPS Direct adolygiad thematig ar VAWG, ac o ganlyniad bu'n ymwneud â menywod Affricanaidd a Charibïaidd ar gyfer seminar Trais Domestig. Derbyniodd Erlynyddion Dyletswydd hyfforddiant gan Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol. Newidiodd CPS Direct hefyd ei broses o gofnodi monitro Safonau Ansawdd Craidd sydd wedi arwain at gynnwys ethnigrwydd y dioddefwr ym mhob achos pan fydd hynny'n bosibl. Symudwyd mater cofnodi ethnigrwydd dioddefwyr ymlaen hefyd trwy bresenoldeb yn Fforwm Atebolrwydd Cymunedol (CAF) y CPS.

Cyfrannodd Grŵp Twyll Canolog y CPS at nifer o wahanol ddigwyddiadau a roddodd gyfle i roi gwybod i'r rhai a gymerodd ran am y CPS a'r Grŵp Twyll Canolog. Rhoddwyd araith i Fforwm Twyll Menywod sy'n dwyn at ei gilydd fenywod sy'n ymwneud â phob math o atal, canfod, ymchwilio ac erlyn twyll.

**Astudiaeth Achos CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr**

Mewn cyfarfod o CIP Cleveland, yn ystod trafodaeth ar achosion aflwyddiannus, gwelwyd bod diwylliant arbennig yn ardal South Bank Redcar a Cleveland sy'n rhwystro cydweithrediad gyda'r System Cyfiawnder Troseddol, yn arbennig o ran trais domestig. Awgrymwyd felly y gallai gwaith ymgysylltu cymunedol wedi ei dargedu yn yr ardal honno helpu i gynyddu'r hyder yn y System Gyfiawnder Troseddol, ac annog rhoi adroddiadau ac aros gyda'r broses hyd ei diwedd.

Ar ôl trafodaethau gyda phartneriaid yn y System Gyfiawnder Troseddol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Fenywod Tees Valley. Cadeiriwyd y digwyddiad gan yr EDCEM. Esboniodd Ditectif Sarsiant lleol ymateb yr heddlu i adroddiadau o drais domestig a'r camau y mae'r heddlu yn eu cymryd i gadw dioddefwyr yn ddiogel i'r rhai a gymerodd ran. Esboniodd yr arweinydd trais domestig o swyddfa CPS Middlesbrough y broses erlyn, gan gynnwys Camau Arbennig. Esboniwyd dedfrydau cymunedol gan gynrychiolydd o'r Gwasanaeth Prawf, a threfniadau Cyswllt Dioddefwyr, gyda golwg ar gyfleu'r neges nad yw collfarnu o angenrheidrwydd yn golygu carchariad, ond nad yw dedfrydau cymunedol yn golygu bod y troseddwr wedi ei ryddhau 'yn ddi-gosb'. Yn olaf esboniodd yr IDVA lleol y gefnogaeth y mae Cymorth i Fenywod EVA yn gallu ei gynnig os bydd trais domestig wedi ei gofnodi neu beidio, a'r gefnogaeth y gall yr IDVA ei gynnig trwy'r broses yn y llys.

Daeth 58 o fenywod i'r digwyddiad. Llenwodd 25 ffurflenni gwerthuso, a rhoddodd pob un ohonynt adborth positif iawn. Nododd 23 bod y digwyddiad wedi rhoi hyder iddyn nhw ddweud wrth rywun pe byddent yn dioddef o drais domestig. Dywedodd un: "Roedd yn ddiddorol iawn dysgu cymaint y mae pethau wedi newid ers rhai blynyddoedd a'r help y gallwch ei gael". Dywedodd un arall "roeddwn yn ddiolchgar iawn bod pawb mor hawdd siarad â nhw a neis". Dywedodd dwy o'r menywod, petai'r wybodaeth ganddynt ymlaen llaw, na fyddent wedi teimlo mor fregus.

Trwy gynllunio'r digwyddiad ar y cyd gyda'r Ganolfan Menywod ac EVA roedd y CPS yn medru sicrhau bod anghenion y menywod oedd yn dod yno yn cael eu hystyried, gan gynnwys yr angen am egwyl yn gyson, a darparu crèche. Bu'n gymorth hefyd i'r EDCEM ddatblygu perthynas gref â'r ddau sefydliad a fydd yn werthfawr yn y dyfodol; ac mae'n golygu bod y ddau sefydliad yn gallu siarad yn gadarnhaol am y CPS wrth ddefnyddwyr eu gwasanaethau.

Roedd cynnal y digwyddiad yn y Ganolfan i Fenywod yn un o'r rhesymau allweddol pam y bu'n llwyddiant: Roedd yn lleoliad yr oedd y menywod yn gyfarwydd ac yn gyfforddus ag o; Mae'r Ganolfan yn cynnig ystod o weithgareddau a hyfforddiant, ac felly roedd menywod yn medru bod yn

bresennol heb orfod dweud wrth eu partneriaid pam eu bod yno; mae cyfleusterau crèche ar y safle; roedd cost defnyddio'r Ganolfan Menywod yn isel iawn, ond roedd talu i'r Ganolfan yn hytrach na llogi lleoliad allanol yn fodd i ni gynnig cefnogaeth i'r Ganolfan (er ar raddfa fechan iawn) yn hytrach na bod yr arian yn mynd i rywle arall.

Mae tair o'r menywod a ddaeth yno wedi gwirfoddoli i weithredu fel cymorth i'w cymheiriaid o'r Ganolfan sy'n gorfod mynd i'r llys. Maent wedi cael eu hyfforddi gan yr IDVA ar gyfer y rôl hon. Gobeithio y bydd cynnig cefnogaeth i gymheiriaid yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd menywod sy'n gorfod mynd i'r llys i roi tystiolaeth yn gwneud hynny.

12.1c Dadansoddiad/Tystiolaeth bod LSIPau wedi eu sefydlu, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn y cymunedau ac yn cael eu defnyddio yn weithredol i sicrhau bod rôl y CPS yn cael ei deall yn ehangach.

**Arfer Da** – Daw cynrychiolwyr panel CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr o drawstoriad amrywiol o gymunedau lleol. Daw'r cynrychiolwyr o amrywiaeth o gymunedau/sefydliadau sy'n cynnig gwasanaethau i ddioddefwyr penodol troseddau, neu sydd â diddordeb mewn cyfiawnder troseddol o safbwynt cymunedau penodol sy'n dod dan nodweddion a ddiogelir Deddf Cydraddoldeb 2010. Cefnogir y paneli gan ddogfennau cylch gorchwyl cynhwysfawr. Lluniwyd y dogfennau cylch gorchwyl trwy ymgynghori â chynrychiolwyr cymunedol. Mae'r ddwy ddogfen yn 'fyw' ac yn agored i'w newid. Cytunodd aelodau'r panel i gyflwyno 'Proses Digwyddiad Critigol' newydd i gylch gorchwyl Paneli Craffu CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr. Byddai'r broses newydd yn galluogi cyfarfod panel craffu i ddwyn unrhyw achos eithriadol i sylw Prif Erlynydd y Goron os byddant yn teimlo ei fod wedi cael ei gynnal yn wael gan asiantaeth a phan fydd y dioddefwyr neu dystion yn parhau mewn sefyllfa fregus.

Mae aelodau panel CPS Gogledd Orllewin Lloegr yn adolygu ffeiliau, data perfformiad a strategaethau Troseddau Casineb ac maent hefyd yn weithredol wrth weithio gyda'r EDCEM yn codi ymwybyddiaeth o'r CPS. Bu aelod Traws sy'n gweithio gyda'r Ganolfan Adnoddau Addysg Traws yn gweithio gyda'r EDCEM yn Sparkle, digwyddiad Trawsryweddol Gogledd Orllewin Lloegr ac fe wnaeth hefyd rannu ei phrofiad o ddigwyddiad Trosedd Casineb yng Nghynhadledd Troseddau Casineb ar Gludiant Cyhoeddus y CPS. Tanlinellodd aelodau'r panel bwysigrwydd sicrhau bod y Pecyn Troseddau Casineb Hiliol a Chrefyddol ar gael i ddefnyddwyr Iaith Arwyddo Prydain (BSL) ac felly fe wnaeth aelod o'r panel o Ganolfan Manceinion i'r Byddar arwyddo'r elfennau o'r pecyn oedd ar fideo. Mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr BSL ddefnyddio'r adnodd (trwy wefan CPS Gogledd Orllewin Lloegr) ac y gall aelodau byddar o'r gymuned ddeall y CPS yn well a'r ffordd yr ydym yn ymdrin â Throseddau Casineb Hiliol a Chrefyddol.

Sefydlwyd LSIP CPS De Ddwyrain Lloegr gyda chylch gorchwyl clir. Rhoddir ystyriaeth i allu aelodau i ymwneud yn llawn â'r broses LSIP: ystyrir anghenion dysgu a datblygu yn y cyfnod cynharaf a rhoddir hyfforddiant gan y Cydlynydd Troseddau Casineb i'w helpu i ddeall strwythur ffeil achos a chynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hefyd o bolisi a gweithdrefnau'r CPS. Rhoddir cyfle i aelodau gyfrannu eitemau at yr agenda ac maent hefyd wedi bod yn ymwneud â'r hyfforddiant dan arweiniad defnyddwyr i staff y CPS. Rhoddodd Cyngor ar Bopeth Walton a Chydlynydd Trais Domestig Cyngor Sir Surrey olwg ar y cyd-destun ehangach o ran Trais Domestig yn Surrey yn ystod diwrnod hyfforddi staff, gydag ystyriaeth benodol i ddarparu gwasanaeth.

Mae gan LSIP CPS Tafwys a Chiltern eitem ar yr agenda i aelodau'r panel gael rhoi'r diweddaraf a chynnig eitemau o bwys i'w trafod. Manteisiodd nifer o aelodau'r panel ar y cyfle i gynnig eitemau a chyflwyno papurau. Mae'r rhain yn cynnwys papur ar gyfieithiadau yn y llys, gwerthuso ymgyrch Cam-drin Domestig yn Swydd Rhydychen, a chyflwyniad ar y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**Blaengaredd** – Mae gan CPS Dwyrain Lloegr bartneriaeth flaengar gydag Ysgol y Gyfraith Prifysgol East Anglia. Mae'r LSIPau yn manteisio ar gefnogaeth gyfreithiol annibynnol pro-bono gan ddau fyfyriwr ôl-raddedig yn y Gyfraith o'r brifysgol. Mae hyn yn bodloni dymuniad aelodau cymunedol y panel am gael cyfraniad cyfreithiol annibynnol i'r paneli, gan arbed adnoddau staff y CPS wrth gyflawni'r swyddogaeth hon. Yn eu tro, mae'r Brifysgol a'r myfyrwyr wedi cael profiad cyfreithiol gwerthfawr a chael gweithredu mewn cyd-destun real iawn, mewn amgylchedd partneriaeth gefnogol. Mae'r Ardal hefyd wedi cynnig cyfle i'r cynghorwyr cyfreithiol o fyfyrwyr gysgodi gwaith yn y CPS, a chynnig siaradwyr ar gyfer dwy seminar gyrfaoedd cyfreithiol a gynhaliwyd yn y Brifysgol i'w myfyrwyr Cyfraith israddedig. Canmolwyd y cyswllt a'r berthynas hon rhwng Ysgol y Gyfraith Prifysgol East Anglia a CPS Ardal Dwyrain Lloegr gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi yn eu Hadroddiad Arolwg diweddar ar yr Ardal.

Cyfarfu CPS Llundain gyda grŵp o bobl ifanc i edrych ar y modd y mae'r CPS yn trin achosion yn dilyn yr anhrefn yn Llundain yn Awst 2011. Edrychodd y panel o bobl ifanc, a dynnwyd o Grŵp Cynghori Annibynnol Pobl Ifanc Heddlu Trafnidiaeth Prydain, ar achosion a ddaeth i ben o'r helyntion. Daeth y digwyddiad â phobl ifanc at ei gilydd i edrych ar y ffeiliau achos gyda'i gilydd, codi ymwybyddiaeth o sut a pham y mae penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y CPS yn sgil yr anhrefn, a dynodi materion a thueddiadau ym mhroses y CPS o wneud penderfyniadau; gan edrych yn benodol ar effaith y llunio penderfyniadau ar achosion yn ymwneud â phobl ifanc. Dywedodd un o'r bobl ifanc a fu'n bresennol, 'Mae pobl ifanc yn cael eu gweld fel y troseddwyr o hyd ac mae pobl yn meddwl na wnaeth yr helyntion effeithio ar bobl ifanc o gwbl,

ond a dweud y gwir fe wnaethon nhw effeithio mwy ar bobl ifanc na'r rhan fwyaf o bobl'.

12.1d Dadansoddiad/Tystiolaeth bod ymgynghori â LSIPau ar flaenoriaethau busnes ac adborth yn cael ei ystyried wrth bennu blaenoriaethau lleol.

**Arfer Da** – Mae LSIPau CPS Dwyrain Lloegr yn cael eu defnyddio i ymgynghori ar bolisïau ac arferion y CPS, yn genedlaethol a lleol, yn ogystal â chynnal adolygiadau achosion a gwaith craffu. Anfonir dogfennau ymgynghori cyhoeddus y CPS hefyd at aelodau'r panel pan fydd ganddynt gyfnod ymgynghori sydd tu allan i'r cylch arferol o gyfarfodydd panel chwarterol. Mae'r enghreifftiau diweddar o bynciau ymgynghori a godwyd gyda LSIPau yn cynnwys y Cod Ymarfer diwygiedig i Erlynyddion y Goron, Gyrru Gwael a Chyfryngau Cymdeithasol.

Ymgynghorwyd â LSIP CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer ar ystod o flaenoriaethau busnes gan gynnwys Cynllun Busnes yr Ardal a data perfformiad yr Ardal. Roedd yr LSIP wedi gofyn am wybodaeth ychwanegol am broffil gweithlu'r Ardal, craffu ychwanegol ar achosion Troseddau Casineb Anabledd a hyfforddiant i erlynyddion Trais Domestig arbenigol yr Ardal.

Mae gan aelodau LSIP CPS De Ddwyrain Lloegr fynediad rhwydd at Bolisi cenedlaethol y CPS ac maent wedi cael cyfarwyddyd a hyfforddiant arno. Byddant yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson ar gynlluniau gweithredu lleol ac ym mhob cyfarfod maent yn cael y diweddaraf am berfformiad ar Droseddau Casineb, Trais Domestig a throseddau rhywiol; arweiniodd hyn at gyfraniad yr Ardal at grwpiau ffocws dioddefwyr. Ymgynghorwyd ag aelodau ar strategaeth VAWG De Ddwyrain Lloegr a'r cynnydd o'i gymharu â'r amcanion. O ganlyniad i'w hadborth a chraffu ar waith achos ar thema trais domestig, gofynnwyd i'r CPS gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i liniaru oedi gweinyddol, oedd yn cael effaith ar achosion trais domestig yn Swydd Gaint.

Mae aelodau LSIP CPS Cymru yn ystyried data Troseddau Casineb a/neu VAWG ac yn dynodi meysydd sy'n peri pryder a blaenoriaethau ar gyfer y CPS. Ymgynghorir ag aelodau hefyd ar Gynllun Busnes yr Ardal a strategaethau eraill fel ailstrwythuro'r Ardal; Gwasanaeth Uned Gofal Tystion i Ddioddefwyr a Thystion wedi ei ddiwygio; Cynllun Busnes CPS Cymru; ymgynghori ar y Cod; gweithgareddau Ymgysylltiad Cymunedol; Amcanion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS; troseddu ar Rwydweithiau Cymdeithasol; Strategaeth Ymlyniad Sipsiwn a Theithwyr. Ymgorfforir adborth mewn strategaethau lleol neu byddant yn cael eu bwydo yn ôl i brif swyddfa'r CPS.

## 12.2 Mae'r Grwpiau a'r Paneli Craffu yn rhoi adborth ar y ffordd y mae'r cymunedau yn debygol o weld y penderfyniadau a wnawn a'n gweithdrefnau trin achosion

Mae'r adran hon yn crynhoi'r arferion o'r meini prawf Safon Ansawdd Craidd 12.2 ac mae'n canolbwyntio yn benodol ar arfer da a blaengaredd wrth reoli ymgysylltiad cymunedol sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i ddatblygu arferion ymgysylltiad cymunedol cynaliadwy.

12.2a Dadansoddiad/tystiolaeth o ddefnyddio ystod o beirianweithiau i gasglu adborth gan gymunedau lleol, gan gynnwys LSIPau.

**Arfer Da** – Sefydlodd CPS Dwyrain Lloegr Bwyllgor Gwaith Achos Ardal i roi llinell adrodd glir a systematig rhwng y ddwy LSIP Ardal a thimau rheoli ac erlyn yr Ardal. Mae'r Pwyllgor Gwaith Achos Ardal yn ystyried adborth ar bob dogfen sy'n deillio o gyfarfodydd yr LSIP; yn cytuno ar gamau gweithredu, yn datblygu amserlen i weithredu, ac yn dyrannu cyfrifoldeb yn ôl hynny. Bydd hyn yn sicrhau bod trafodaethau'r LSIP yn cael sylw, bod gweithredu arnynt a'u bod yn cael eu monitro yn systematig yn yr Ardal.

Cynlluniodd CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr ddogfen 'crynodeb o ganlyniadau panel' i alluogi cynrychiolwyr cymunedol i raeadru'r materion a godwyd o'r holl baneli i'w cymunedau ar ffurf hawdd ei ddeall a chryno. Dosberthir holiaduron yn aml pan eir i ddigwyddiadau cyhoeddus mwy i gael adborth penodol. Er enghraifft aeth yr Ardal i'r digwyddiad Pride yn Swydd Nottingham a derbyn adborth gwerthfawr gan y gymuned LGBT am yr amgyffrediad o ddiogelwch personol. Rhannwyd yr adborth gyda phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol, paneli craffu a phrif swyddfa'r CPS.

Mae CPS Tafwys a Chiltern yn defnyddio ystod o beirianweithiau i gasglu adborth gan gymunedau lleol, gan gynnwys LSIPau, fel a ganlyn:

- Staff CPS yn mynd i gyfarfodydd cymunedol a phartneriaeth
- Trafodaethau mewn cynadleddau
- Trafodaethau wyneb yn wyneb gydag aelodau LSIP mewn cyfarfodydd
- Adborth o'r hyfforddiant Cynefino Gweithredol LSIP
- Adborth yn y Bwrdd Hyder Ardal
- Hyfforddiant a gwerthuso Hyfforddiant
- Casglu pryderon a thrafodaethau mewn cofnodion a'r ymatebion yn cael eu rhoi mewn adroddiadau a phapurau
- Adborth gan y Panel Craffu Trais Domestig
- Ymwneud yn uniongyrchol â dioddefwyr Trais Domestig.

Cychwynnodd Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth y CPS (SCCTD) brosiect heriol i wella ymgysylltiad gyda chymunedau o ran Marwolaethau yn y Ddalfa. Cynhaliwyd cyfarfod i benderfynu ar gwmpas gyda phartneriaid allanol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Un o ganlyniadau'r cyfarfod yw y dylai'r CPS gael cyfarfodydd unigol gyda phartneriaid allanol a theuluoedd. Cytunwyd hefyd rhwng y rhai oedd yn bresennol bod angen i ymgynghoriad ehangach gael ei gynnal cyn y gellid cynllunio fformat y broses ymgysylltiad.

### 12.2b Dadansoddiad/Tystiolaeth o gyfathrebu adborth/argymhellion yr LSIPau yn systematig trwy'r Ardal gyfan.

**Arfer Da** – Mae gan CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr ddull systematig a chyson o rannu a rhaeadru gwybodaeth o'r paneli i staff, gan ddefnyddio timau rheoli, cyfarfodydd timau, cyhoeddi gwybodaeth a chyfathrebu ar-lein. Mae'r Ardal hefydyn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ôl cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid cymunedol i'r tîm rheoli uwch a'r Cydlynwyr Troseddau Casineb/VAWG Ardal. Mae'r Ardal yn cadw sgiliau a gwybodaeth aelodau'r panel am y CPS yn gyfredol trwy ddefnyddio 'Pecyn Adnewyddu Gwybodaeth' sydd wedi cael gwared ar yr angen i'r Ardal gynnig cwrs hyfforddi ffurfiol i aelodau'r paneli.

Mae CPS De Orllewin Lloegr yn rhoi adborth i'r staff trwy erthygl ymgysylltiad gyson yn y Brîff i'r De Orllewin yn amlinellu ei holl ganlyniadau, ynghyd ag adroddiadau eraill a chofnodion cyfarfodydd. Mae safle rhyngrwyd De Orllewin Lloegr hefyd yn rhoi adroddiadau am ganlyniadau LSIPau ac ymgysylltu arall i'r cyhoedd yn ehangach. Cesglir adborth LSIP mewn cofnodion a ffurflenni canlyniadau ac fe'u rhennir gyda'r rhai a gymerodd ran a'r staff. Cynhyrchir 'crynodeb' o'r adborth gan wahanol LSIPau gyda'r negeseuon allweddol ac fe'i rhennir gydag arweinwyr Troseddau Casineb a'r holl staff.

Mae CPS Wessex yn rhoi manylion yr holl brosesau y cytunwyd arnynt i gyfleu adborth gan LSIPau ar draws yr Ardal yn eu strategaeth ymgysylltiad cymunedol. Mae hyn yn cynnwys adborth un i un i staff perthnasol a gwersi a rannwyd i'r holl staff trwy'r adran 'Adborth Cymunedol Diweddaraf' ar dudalen ymgysylltiad cymunedol Parth Gwybodaeth Wessex (WIZ). Mae'r dudalen ymgysylltiad cymunedol yn cynnwys y gweithgareddau ymgysylltiad cymunedol diweddaraf, newyddion am gydraddoldeb ac amrywiaeth ac adborth cymunedol.

Gwnaeth CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer drefniadau ar gyfer cyfathrebu adborth/argymhellion yr LSIPau yn systematig trwy'r Ardal gyfan fel y gwelir yng nghylch gorchwyl yr LSIP.

- Cynhyrchwyd y newyddion diweddaraf i'w cynnwys yn y 'Review' y cylchlythyr sy'n cael ei gylchredeg i bob aelod o staff yn yr Ardal.
- Rhoddir adborth LSIP yng nghyfarfod y grŵp ffocws staff bob yn ail fis. Mae'r grŵp ffocws staff yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig o bob uned/tîm ar draws yr Ardal sy'n cymryd cyfrifoldeb am raeadru gwybodaeth. Yn awr mae aelod o Grŵp Ffocws y Staff wedi cael ei enwebu i fynd i gyfarfodydd LSIP a fydd yn cryfhau strwythurau adborth yr Ardal ymhellach eto.
- Mae Cydlynydd Troseddau Casineb ac arweinydd VAWG yr ardal yn cael eu cynnwys pan fydd cofnodion LSIP yn cael eu cylchredeg ac maent yn rhaeadru adborth/argymhellion LSIP i erlynyddion arbenigol yn eu cyfarfodydd Troseddau Casineb a VAWG chwarterol.
- Y CCP sy'n gyfrifol am sicrhau bod adborth unigol yn cael ei roi i erlynyddion yn dilyn craffu ar ffeiliau mewn cyfarfodydd LSIP, fel sy'n briodol. Er enghraifft, trwy graffu ar achos trais domestig mewn cyfarfod LSIP fe ysgogwyd y Cydlynydd trais domestig i gylchredeg nodyn i atgoffa erlynyddion y dylent sicrhau bod y cyflwyniadau yn gysylltiedig ag achos llys diannod yn mynd tu hwnt i gyfeiriadau at y ddedfryd ac yn tanlinellu effaith posibl hyd yr amser ar y dioddefwr.

12.2c Dadansoddiad/Tystiolaeth o strategaeth/cynllun clir a chyfleu yn systematig i gymunedau ehangach beth yw'r camau a'r canlyniadau a weithredwyd o ganlyniad i adborth gan yr LSIP.

**Arfer Da** – Datblygodd CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr system i staff gael gwell dealltwriaeth o gymunedau lleol trwy gynnig adnoddau dysgu a reolir gan yr unigolyn ac a gedwir ar y safle EMLIN yn yr adran Gwybodaeth Polisi Cydraddoldeb. Cynhelir cyfarfodydd uwch reolwyr yr Ardal bob chwe wythnos ac maent yn cynnwys sesiynau ar themâu cydraddoldeb, amrywiaeth neu ymgysylltiad cymunedol sy'n cael eu rhedeg gan Brif Erlynydd y Goron yr Ardal (DCCP).

Mae CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr, ar ddiwedd pob cyfarfod panel yn ystyried y negeseuon allweddol i gymunedau, i gynorthwyo aelodau'r panel i roi adborth yn ôl. Drafftiodd Cyd-gadeirydd Annibynnol HCSP Homoffobaidd/Trawsffobaidd ddogfen negeseuon allweddol i'w rhannu i gymunedau sy'n cael ei rhoi ar wefan yr Ardal i Aelodau'r Panel gyfeirio ati.

Mae gan CPS Cymru strategaeth gyfathrebu LSIP sy'n amlinellu sut y bydd cymunedau ehangach yn cael gwybod am argymhellion a chanlyniadau LSIP. Mae'r strategaeth yn cynnwys y dulliau cyfathrebu canlynol:

- Gwefan a mewn rwyd CPS Cymru sy'n cael eu diweddaru â lluniau a gwybodaeth am aelodau'r panel ynghyd â chanlyniadau LSIP.
- Defnyddir cylchlythyrau cymunedol i hybu gwaith y panel er enghraifft Cylchlythyr Age Cymru.

- Aelodau'r panel yn codi ymwybyddiaeth o rôl y CPS ac LSIPau ar draws eu sefydliadau eu hunain a'u cymunedau. Mae'r rôl hon yn cael ei chynnwys yng nghylch gorchwyl yr LSIP.
- Cynhyrchwyd taflen LSIP ddwyieithog i'w defnyddio mewn digwyddiadau.
- Yn dilyn pob LSIP, cynhelir cyfarfodydd gyda'r llu heddlu perthnasol i drafod yr argymhellion a wnaed gan y panel a chytuno ar y camau gweithredu i ymdrin â hynny, gan gynnwys mewn fforymau Troseddau Casineb yr heddlu a chyfarfodydd perfformiad/gweithrediadau'r heddlu. Defnyddir cylchlythyrau'r heddlu hefyd i roi adborth. Cynrychiolwyr yr heddlu yn eistedd ar y rhan fwyaf o'r paneli.
- Rhoddir adborth i Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, HMCTS a rhoddir ymatebion yn y cyfarfodydd dilynol.
- Mae'r gwaith yn parhau gyda sefydliadau trydydd sector, lluoedd heddlu ac awdurdodau lleol i hybu rôl y CPS, ei bolisïau Troseddau Casineb a'r LSIPau trwy greu hyperddolenni i bolisïau'r CPS ar wefannau.

## 12.3 Rydym yn defnyddio adborth i adolygu sut yr ydym yn cynnal ein hachosion

Mae'r adran hon yn crynhoi'r arferion o'r meini prawf Safon Ansawdd Craidd 12.3 ac mae'n canolbwyntio yn benodol ar arfer da a blaengaredd wrth reoli ymgysylltiad cymunedol sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i ddatblygu arferion ymgysylltiad cymunedol cynaliadwy.

12.3a Dadansoddiad/Tystiolaeth o gamau clir, gwelliannau a newidiadau positif a weithredwyd wrth lunio penderfyniadau ac ymdrin ag achosion gan LSIPau.

**Arfer Da** – Mae CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr yn cynnwys camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth gan Baneli yn y rhestr o ganlyniadau i'r HCSP Homoffobaidd/Trawsffobaidd. Un enghraifft benodol yw'r gwaith sy'n digwydd yng nghyswllt defnyddio Datganiadau Effaith Cymunedol (CIS) mewn achosion sy'n ymwneud â Throseddau Casineb Homoffobaidd/Trawsffobaidd a gyflawnir yn y gymuned hoyw yn Newcastle. Pan fydd hyn yn effeithiol bydd yn sail i lunio penderfyniadau o ran y prawf Cod budd i'r cyhoedd, a hefyd o ran amodau mechnïaeth, yn ogystal â rhoi gwybodaeth ar gyfer dedfrydu. Mae cynlluniau yn eu lle i drafod llunio Datganiad Effaith Cymunedol yng nghyswllt Troseddau Casineb yn erbyn y Gymuned Iddewig yn Gateshead.

Argymhellodd LSIP CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer mewn cyfarfod y dylai'r Ardal ystyried cynnig hyfforddiant FM, HBV a FGM i erlynyddion i gynyddu ymwybyddiaeth a hyder. Darparwyd yr hyfforddiant i erlynyddion Trais Domestig Arbenigol yr Ardal. Mae'r enghreifftiau eraill o gamau sy'n deillio o'r LSIP yn cynnwys ymchwil i Ddatganiadau Personol Dioddefwyr

(VPS) sy'n cael ei symud ymlaen mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill lleol y System Gyfiawnder Troseddol trwy LCJB Glannau Mersi.

Roedd CPS Llundain wedi gwneud newidiadau cadarnhaol yn dilyn yr adborth a gafwyd gan gymunedau lleol trwy baneli cyhoeddus. Mae'r paneli wedi cyflwyno pryderon i'r Ardal am y defnydd o Ddatganiadau Effaith Cymunedol a ddefnyddiwyd ar gyfer achosion Operation Withern (anhrefn cyhoeddus 2011). Dadleuodd y panel bod y Datganiadau yn rhoi'r pwyslais ar yr heddlu ac mai ychydig iawn o gynnwys oedd ynddynt o safbwynt y gymuned. Symudwyd hyn ymlaen i Bwyllgor Ansawdd Gwaith Achos yr ardal a bydd yn cael ei ddatblygu gan uned 'Time for Action' y Maer sydd yn edrych ar Ddatganiadau Effaith Cymunedol ar hyn o bryd.

Yn CPS Cymru, yn dilyn adborth gan aelodau'r LSIP, datblygodd y Cydlynydd Troseddau Casineb becyn Hyfforddi Troseddau Casineb wedi ei achredu i ymdrin â'r angen i roi rhagor o hyfforddiant i erlynyddion i sicrhau cysondeb wrth ymdrin ag achosion, defnyddio polisïau Troseddau Casineb yn briodol, dynodi achosion yn briodol, sicrhau bod A146 yn cael ei gweithredu a gwella ansawdd MG3au ac adolygiadau sy'n parhau. Cyflwynwyd yr hyfforddiant i'r CPS ar draws Cymru ac mae'n cael ei gyflwyno i'r pedwar llu heddlu. Yn dilyn adborth gan aelodau LSIP bod defnyddio sarhad homoffobaidd ar lafar yn ddigon ynddo ei hun i brofi bod y diffynnydd **yn bwriadu** aflonyddu, dychryn neu beri trallod, cynghorwyd erlynyddion i ddewis cyhuddiad dan Adran 4a o'r Ddeddf Trefn Gyhoeddus, sy'n cynnwys **bwriad**, yn hytrach nag Adran 5 mewn achosion o'r fath (sy'n berthnasol i bob edefyn Troseddau Casineb). Rhoddwyd cyfarwyddyd ar ddefnyddio iaith addas wrth ymdrin ag achosion Troseddau Casineb homoffobaidd i'r holl staff yn dilyn pryder gan aelodau LSIP o ran yr iaith a ddefnyddir mewn adolygiadau ar rai achosion gan gynnwys defnyddio'r gair "homosexual".

Cyflwynodd Adran Lles Gwledig ac Iechyd y CPS (WHRD) weithdai i ymchwilwyr i wella perfformiad wrth ddatgelu a fydd yn cael effaith ar y gallu i ymdrin â gwaith achos yn fwy effeithiol. Mae cymryd rhan mewn gweithdai i adolygu cynnwys y llythyrau Cyfweliad Dan Rybudd (IUC) i'r Gwasanaeth Ymchwilio Twyll wedi cael yr effaith o gynyddu lefel presenoldeb yn yr IUC a thrwy hynny leihau'r oedi yn y broses ymchwilio a galluogi'r gallu i ymdrin â beirniadaeth farnwrol a dderbyniwyd am oedi yn dod â'r achosion yma i'r llys.

Cyfarfu SCCTD CPS â'r Tîm Perthnasau mewn Galar yn Cymorth i Ddioddefwyr, a arweiniodd at gyfraniad gan y CPS at daflen a ddyluniwyd i esbonio elfennau sylfaenol y broses apelio i ddioddefwyr, eu perthnasau a'r personél cyswllt yn yr heddlu.

12.3b Dadansoddiad/tystiolaeth o'r canlyniadau o weithgareddau ymgysylltiad ehangach sydd wedi arwain at welliannau yn y modd y cynhelir achosion.

**Arfer Da** – Mae CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr wedi ymgysylltu â swyddogion carchar yn dilyn y rhyddfarn a roddwyd i garcharor a gyhuddwyd o ymosodiadau difrifol ar grŵp o swyddogion carchar. Rhoddwyd y rhyddfarn i'r diffynnydd yn dilyn ple o hunanamddiffyniad ar sail y ddadl ei fod yn ofni y byddai'r swyddogion yn ymosod arno oherwydd bod swyddogion carchar wedi ymosod arno yn y gorffennol a'i fod yn dal i ddioddef o anhwylder straen ar ôl trawma (PTSD). Cafodd y penderfyniad hwn ei ddehongli fel un oedd yn awgrymu y gall carcharorion ymosod ar swyddogion carchar heb ofni cosb os byddant yn dadlau eu bod yn dioddef o PTSD. Arweiniodd hyn at golli hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol ymhlith y gymuned o swyddogion carchar. Mae'r gweithgaredd ymgysylltu sydd wedi digwydd yn helpu'r CPS i ddeall pryderon y swyddogion carchar yng nghyswllt erlyniadau, ac i ymdrin â'r pryderon hynny wrth adolygu ffeiliau sy'n ymwneud ag erlyn carcharorion. Bu hyn yn sail i adolygiadau achos o ran cryfhau achosion sy'n ymwneud â charcharorion â chyffuriau neu ffonau symudol yn eu meddiant.

Mae gan CPS Cymru waith yn parhau a fydd yn arwain at ddull amlasiantaethol gwell i ymdrin â Throseddau Casineb Anabledd. Yn y tymor byr mae ymgysylltu wedi galluogi'r CPS i wella'r modd y mae'n cynnal achosion trwy weithredu ar adborth am yr angen i gydnabod Troseddau Casineb Anabledd yn gynnar a chwilio am y dystiolaeth ychwanegol i brofi casineb at anabledd. Arweiniodd hyn at welliannau yn ansawdd MG3au gan gynnwys gwell cynlluniau gweithredu ar gyfer yr heddlu a chynnydd yn y nifer o achosion a ddynodwyd fel rhai Troseddau Casineb Anabledd (57 achos yn 2012-13, Chwarteri 1-3; y nifer uchaf mewn 5 mlynedd).

Dynododd CPS Wessex o ganlyniad i ymgysylltu â dioddefwyr mewn llochesi a Chymorth i Fenywod nad yw dioddefwyr Trais Domestig yn deall y system. O ganlyniad mae'r Ardal wedi gweithio gyda'r heddlu yn Hampshire i ddatblygu protocol camau cryfach i ddioddefwyr sydd mewn perygl mawr o Drais Domestig, gan sicrhau bod mwy yn cael ei wneud yn awr i atal rhai rhag dioddef dro ar ôl tro. I'r CPS mae hyn yn cael ei gyflawni yn bennaf trwy well gofal i'r dioddefwyr a dull erlyn cryfach pan fydd dioddefwyr yn tynnu eu tystiolaeth yn ôl, enghraifft o hyn yw cyflwyno un man cyswllt ym mhob swyddfa ar gyfer ymdrin ag achosion er enghraifft rhoi caniatâd i beidio â pharhau ag achos.

Cyfarfu CPS Wessex â Phrif Weithredwr Cymdeithas Olympaidd Prydain (BOA). Un o'r materion allweddol oedd yr achos am negeseuon twitter am Tom Daley gafodd ei drin yn ystod y Chwaraeon Olympaidd. Dywedodd y BOA na allent fod yn fwy bodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r achos gan y CPS, a'n cyswllt â nhw a'n bod wedi gallu rhoi mwy o fewnbwn i achos arall trwy siarad yn uniongyrchol â'r ddau blymiwr oedd yn rhan o'r achos.

## Blaengaredd

CPS Llundain, derbyniwyd adborth yn Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Pobl Ifanc Heddlu Trafnidiaeth Prydain gan bobl ifanc a gododd y mater eu bod yn amgyffred bod achosion oedd yn cael eu herlyn yn dilyn yr anhrefn yn anghymesur o 'galetach' ar bobl ifanc. Derbyniodd y bobl ifanc gynnig i sefydlu cyfarfod panel craffu am unwaith yn unig i edrych ar y ffeiliau trefn gyhoeddus terfynol 2011. Fe wnaeth yr Ardal hefyd dderbyn cais gan aelod o CAF i bobl ifanc fynd i gyfarfod panel pan fyddai'r ffeiliau yn cael eu trafod. Nododd y bobl ifanc nad oeddent erioed wedi clywed am Ddatganiadau Effaith Cymunedol a bod yr effaith ar bobl ifanc yn amlwg ar goll o ddatganiadau o'r fath. Mae'r Ardal yn awr yn weithredol yn ymwneud â newid cynnwys y Datganiadau Effaith Cymunedol; ac ar hyn o bryd mae wedi datblygu Datganiad Effaith Cymunedol drafft newydd i'w ddefnyddio mewn achosion yn ymwneud â gangiau ac mae wedi cyflwyno fflag monitro lleol ar gyfer defnyddio Datganiadau Effaith Cymunedol. Cyfetholwyd dau o bobl ifanc ar y paneli trwy wahoddiad gan yr aelodau i sicrhau bod safbwyntiau pobl ifanc yn cael eu hystyried.

12.3c Dadansoddiad/Tystiolaeth o adolygiadau cynnal achosion yn ymgorffori adborth cymunedol a'i effaith – peirianwaith yn ei le a dynodi canlyniadau.

**Arfer Da** – Mae CPS De Ddwyrain Lloegr yn cynnal adolygiadau achos tu allan i'r broses LSIP i ddynodi problemau o ran perfformiad. Er enghraifft mae Cydlynydd Ardal Swydd Gaint yn trefnu cyfarfod amlasiantaethol Grŵp Gweithredol Treisio yn chwarterol gyda'r cylch gorchwyl o werthuso protocolau lleol o'u cymharu ag arferion lleol a'u diweddaru ar adolygiadau perfformiad a gwaith achos. Mewn cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Rubicon, darparwr cyngor i ddioddefwyr treisio mynegwyd pryder am ddarparu cyngor cyn i unrhyw achos troseddol gychwyn. Adolygodd y Cydlynydd Ardal y cyfarwyddyd gan roi cyngor na all erlyniadau atal therapi i ddioddefwyr cyn, yn ystod nac ar ôl achosion. Mae'r Ardal hefyd yn cysylltu gyda'r tîm gofal tystion i sicrhau, yn yr achosion hynny sy'n arwain at gyhuddiad o dreisio, y bydd y tîm gofal tystion yn cyfeirio at Gynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA)**,** os daw'n amlwg bod dioddefwr am gael neu angen cyngor o ganlyniad ni ddylid eu hatal rhag cael hynny.

CPS Cymru, yn dilyn pryder am anghysondebau rhwng data'r CPS a data'r heddlu, cytunwyd ar drefn sicrhau data Troseddau Casineb gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO). Cytunwyd ar amserlen fisol gyda'r pedwar llu heddlu yng Nghymru a thrwy hynny mae'r HCC ac arweinydd Troseddau Casineb yr heddlu yn cynnal adolygiad manwl o'r holl achosion a ddaeth i ben a'r rhai sy'n dal yn fyw. Mae'r sicrwydd yn rhoi: tystiolaeth o unrhyw ddiffyg fflagio/dynodi gan yr heddlu a'r CPS; mwy o wybodaeth am y rhesymau pam bod achosion yn aflwyddiannus a chyfleoedd i gynyddu nifer yr achosion sy'n cael eu herlyn. Ymgorfforir argymhellion cyffredinol yr LSIP hefyd yn yr adolygiadau hyn. Bydd y gwersi a ddysgwyd ac arfer da yn cael eu bwydo yn ôl i reolwyr a staff. Yn dilyn adborth gan aelodau

LSIP yn Nyfed Powys am y CPS yn dynodi rhai dioddefwyr anabl fel rhai bregus ond heb gymryd y cam ychwanegol i chwilio am gasineb tuag at anabledd, cynhelir adolygiad cyson o'r holl ddioddefwyr a nodir fel 'tystion bregus neu dan fygythiad' (ac eithrio dioddefwyr Trais Domestig). Er mai megis dechrau mae'r adolygiad mae wedi dynodi un achos lle gallai rhagor o dystiolaeth fod wedi profi casineb tuag at anabledd. Bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu bwydo yn ôl i'r staff.

Cynhaliodd Tîm Cymunedol CPS Swydd Efrog a Glannau Humber adolygiad o achosion Troseddau Casineb aflwyddiannus ar gyfer Rhan Ddwyreiniol Gorllewin Swydd Efrog. Roedd rhai o'r achosion a gynhwyswyd yn y sampl wedi eu hadolygu hefyd gan yr HCSP felly fe ymgorfforwyd eu hadborth, gan ychwanegu agwedd fwy annibynnol at yr adroddiad. Derbyniodd cyfreithwyr unigol adborth o ganlyniad a bydd adolygiadau a data perfformiad y dyfodol yn datgelu pa effaith y mae hyn wedi ei gael ar ymdrin ag achosion.

Cyfarfu Tîm Cymunedol CPS Swydd Efrog a Glannau Humber hefyd â'r Tîm Diogelwch Cymunedol (CST) i adolygu eu hadroddiadau am ddigwyddiadau casineb gwrth Semitaidd yn Leeds i weld a oedd unrhyw wersi i'w dysgu i'r asiantaethau dan sylw. Roedd rhywfaint o gyfraniad gan yr heddlu ym mhob digwyddiad ond dim ond un a gyfeiriwyd at yr CPS, a arweiniodd at gollfarn. Dynodwyd rhai gwersi o ran y pwysigrwydd i ddioddefwyr weithredu ar unwaith i sicrhau na fydd tystiolaeth yn cael ei cholli. Trafodwyd datblygu taflen leol benodol ar droseddau gwrth Semitaidd hefyd i'r CST ei rhoi i'r rhai sy'n rhoi adroddiad am ddigwyddiadau yn esbonio'r gyfraith a'r broses erlyn i annog pobl i roi adroddiad a chymryd rhan mewn erlyniadau.

### 12.3d Dadansoddiad/tystiolaeth o adborth cymunedol yn sail i'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr a thystion trwy'r broses erlyn a'r cyfathrebu â nhw.

**Arfer Da** – Mae CPS Glannau Mersi a Swydd Gaer wedi parhau ei gefnogaeth i'r Prosiect Interchange – cynllun sy'n cysylltu sefydliadau Addysg Uwch gyda sefydliadau Sector Gwirfoddol, Cymunedol a Ffydd er mwyn cynnal ymchwil sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae'r Ardal wedi helpu myfyriwr criminoleg blwyddyn olaf i ymchwilio i'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig yng Nglannau Mersi a Swydd Gaer, gan gynnwys cefnogaeth CPS a roddwyd i ddioddefwyr a thystion trwy'r broses erlyn. Mae'r Ardal hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r adroddiadau 'Gwrando a Dysgu' ar gyfer Glannau Mersi a Swydd Gaer. Ymchwiliwyd i'r adroddiadau ac fe'u hysgrifennwyd fel rhan o Brosiect Eiriolwyr Gwasanaethau Dioddefwyr. Un o'r amcanion allweddol oedd defnyddio adborth cymunedol fel sail i benderfyniadau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu newydd o ran y gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr a thystion a'r cyfathrebu â nhw.

Cynigiodd HCSP Hiliol a Chrefyddol CPS Gogledd Ddwyrain Lloegr hyfforddiant i swyddogion Gofal Tystion i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n berthnasol i ddioddefwyr a thystion o gymunedau ethnig a/neu ffydd gwahanol. Rhoddodd aelodau'r panel hyfforddiant, ynghyd â'r EDCEM, i Swyddogion Gofal Tystion yn Northumbria. Cafodd yr hyfforddiant dderbyniad da ac fe wnaeth y gwerthusiad nodi bod y rhan fwyaf o Swyddogion oedd yn bresennol wedi dysgu rhywbeth y gallent ei ddefnyddio yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei gyflwyno i Unedau Gofal Tystion yn y ddwy ardal arall ac ymgorfforwyd sylwadau'r CIP yn yr Hyfforddiant Cyfathrebu Uniongyrchol gyda dioddefwyr (DCV).

CPS Cymru, yn dilyn achos o ymosodiad a waethygwyd gan hiliaeth, mynegodd Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd bryderon am y ffordd y mae gwrandawiadau Newton yn cael eu hesbonio i ddioddefwyr. I ymateb i hynny, mae'r Ardal wedi cynhyrchu cyfarwyddyd a llythyrau templed i Unedau Gofal Tystion. Arweiniodd argymhellion yr LSIP at ddatblygu log cwynion i gadw "cwynion" anffurfiol ar lafar gan ddioddefwyr i Swyddogion Gofal Tystion. Mae'r rhain yn cael eu holrhain gyda'r nod o gynyddu lefelau bodlonrwydd dioddefwyr. Arweiniodd gwaith gyda Mencap Cymru at greu templed llythyr sy'n cynnwys symbolau gyda chod lliw i gynorthwyo dioddefwyr/tystion ag anableddau dysgu a gwybodaeth am linell gymorth Mencap er mwyn i staff esbonio'r cynnwys. Arweiniodd adolygiad o lythyrau DCV gan aelodau'r LSIP at ddiwygio'r templedi llythyrau ac i wiriadau rheoli ansawdd gael eu cynnal.

Defnyddiodd CPS Swydd Efrog a Glannau Humber adborth cymunedol mewn ffyrdd gwahanol i gael gwybod sut i gyfathrebu a chefnogi dioddefwyr a thystion. Roedd cyfarfod Panel Craffu Trais Domestig yn cynnwys detholiad o lythyrau i'w hadolygu. Ffurfiodd adborth y panel sail i restr wirio, sydd wedi cael ei chylchredeg i dimau Swyddfeydd Gwybodaeth Dioddefwyr (VIB) a'u gosod ar borth cyfathrebu'r Ardal i'r holl staff gael eu defnyddio i wella ansawdd llythyrau. Amlygodd yr adolygiad trais domestig bod y cyfathrebu gyda dioddefwyr a thystion ar ôl cyhuddiad yn wael oni bai bod yr uned ddiogelu yn ymwneud â'r achos. Arweiniodd hyn at argymhellion penodol i wella cyfathrebu gyda dioddefwyr a thystion, er enghraifft i archwilio a datblygu dolen gyfathrebu gyda'r dioddefwr a'r tyst ar ôl cyhuddiad.

## 12.4 Rydym yn gweithio gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol i ymateb i'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg mewn cymdogaethau a chymunedau, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r arferion o'r meini prawf Safon Ansawdd Craidd 12.4 ac mae'n canolbwyntio yn benodol ar arfer da a blaengaredd wrth reoli

ymgysylltiad cymunedol sy'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn effeithiol i ddatblygu arferion ymgysylltiad cymunedol cynaliadwy.

12.4a Dadansoddiad/tystiolaeth o waith i sefydlu cysylltiadau, rhannu gwybodaeth a gwybodaeth leol, er enghraifft, yr heddlu, LCJBau, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac unigolion eraill a etholir yn lleol, CSPau, LSPau, Fforymau Trais Domestig/SDVC ac ati.

**Arfer Da** – Mae'r holl Ardaloedd CPS wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltiad gyda'r ymgeiswyr am swyddi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn eu hardaloedd lleol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu pecyn briffio i ymgeiswyr a chyfarfod â'r Comisiynwyr a etholwyd i godi ymwybyddiaeth o flaenoriaethau a materion lleol y CPS.

Bu CPS Dwyrain Canolbarth Lloegr, CCPau a DCCPau yn rhagweithiol yn y broses gynllunio ar gyfer cyflwyno'r Comisiynwyr newydd. Cymerodd yr Ardal ran yn yr holl baratoadau LCJB 5 Sir a'r cynllunio i sicrhau bod rolau'r Comisiynwyr yn cael eu cefnogi ac yn dod yn rhan o'r broses o gyflenwi cyfiawnder troseddol yn lleol. Gwahoddodd yr Ardal y Comisiynwyr newydd i gyfarfod panel a agorwyd i'r holl gynrychiolwyr cymunedol gan gynnwys y rhai oedd ond yn cefnogi'r cyfarfodydd panel craffu. Bu'r Comisiynydd a Phrif Weithredwr y Comisiynydd ar gyfer Swydd Lincoln yn bresennol a'r Dirprwy Gomisiynydd ar gyfer Swydd Nottingham. Rhoddodd y ddau Gomisiynydd gyflwyniad byr i'r CIP o'u gweledigaeth bersonol a'u dull o weithredu yn eu rolau newydd ac mae un Comisiynydd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn un o gyfarfodydd y panel craffu.

Datblygodd CPS Llundain brotocolau sydd wedi cael eu llofnodi yn ddiweddar gyda'r Heddlu Metropolitan o ran Trais Domestig. Mae ymdrin â gangiau yn flaenoriaeth allweddol yn Llundain ac mae Bwrdd Lleihau Troseddu Llundain ar hyn o bryd yn creu strategaeth yn erbyn gangiau trwy Lundain i gyd. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r System Gyfiawnder Troseddol – mae dan gadeiryddiaeth Maer Llundain, sydd hefyd yn gweithredu fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Llundain.

Mae CPS De Ddwyrain Lloegr, CCPau a DCCPau wedi cyfarfod pob Comisiynydd yn yr Ardal i drafod nifer o faterion lleol yn dilyn eu hethol. Mae'r Comisiynydd yn Surrey yn awyddus iawn i gyflwyno system sy'n cael ei harwain gan y dioddefwr; mae'r Comisiynydd yng Nghaint yn awyddus i gefnogi ymgyrch y CCP i sefydlu Canolfan Gyfeirio Ymosodiad Rhywiol (SARC), sydd wedi arwain at y CCP yn galw cyfarfod mawr amlasiantaethol i symud hyn ymlaen gyda chefnogaeth y Comisiynydd. Mae'r cyfarfodydd yn Sussex wedi canolbwyntio ar VAWG ac ymgyrch i ddefnyddio camerâu corff wrth fynd i ddigwyddiadau trais domestig – cychwynnwyd hyn o ganlyniad i adborth ar faterion cyllido gan aelodau'r LSIP.

Mae CCP CPS De Orllewin Lloegr a'r tîm rheoli uwch wedi cynnal cyswllt cyson â'r holl ymgeiswyr am swydd Comisiynwyr a'r Comisiynwyr a etholwyd i sefydlu blaenoriaethau a strategaeth leol ac i helpu i sicrhau bod Troseddau Casineb a VAWG yn parhau yn uchel ar agendau lleol. Mae'r CCP wedi sefydlu ac mae'n awr yn cadeirio grŵp rhanbarthol o Brif Gwnstabliaid a'r tri Chomisiynydd ar gyfer yr Ardal i symud partneriaeth strategol ar y cyd ymlaen.

Cadeiriodd CCP CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr gyfres o gyfarfodydd gyda'r Comisiynwyr newydd yn unigol ar rôl y CPS a gweithgareddau ymgysylltiad. Bwriad y rhain oedd sefydlu perthynas waith gynnar, a chynnig gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar draws y pedair ardal llu heddlu; trefnwyd cyfarfodydd eraill gyda CCPau/DCCPau gan sicrhau bod ymgysylltiad yn digwydd fel rhan o gynllun ymgysylltiad cymunedol yr Ardaloedd.

Cymerodd CPS Swydd Efrog a Swydd Humber ran mewn cyfres o ddigwyddiadau sioe ar y lôn ar draws Gogledd Swydd Efrog yn y cyfnod cyn etholiad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i ddangos i'r cyhoedd a'r ymgeiswyr sut y mae'r asiantaethau amrywiol yn ymdrin â throseddu ac anhrefn ar draws y sir. Cyfarfu'r CCP â rhai o'r ymgeiswyr cyn yr etholiadau ac ers hynny mae wedi cyfarfod yr ymgeiswyr llwyddiannus ynghyd â'r DCCPau. Roedd gwefan yr Ardal yn cynnwys adran yn benodol ar gyfer darpar Gomisiynwyr, ac yn cynnwys pecyn briffio Comisiynwyr.

12.4b Dadansoddiad/tystiolaeth bod gweithgaredd partneriaeth rhagweithiol wedi cael ei wneud, gyda'r heddlu a phartneriaid eraill perthnasol e.e. awdurdodau lleol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac unigolion eraill sy'n cael eu hethol yn lleol er mwyn dynodi a rhoi blaenoriaeth i'r materion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r meysydd sy'n peri pryder i gymunedau lleol sydd ag amcanion a chanlyniadau wedi eu diffinio'n glir i'r CPS.

**Arfer Da** – Mae CPS Gogledd Orllewin Lloegr yn gweithio'n glos gyda Heddlu Manceinion Fwyaf a Chyngor Sir Manceinion i ddatblygu dull cydlyn o weithredu ar Droseddau Casineb. Cynhaliodd y CPS, Cyngor Dinas Manceinion a Heddlu Manceinion Fwyaf gynhadledd rhanddeiliaid gyda'r nod o rannu gwybodaeth a gweithio gyda rhanddeiliaid o'r Gymuned LGBT, Cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig , a phobl anabl i ffurfio strategaeth Troseddau Casineb ar y cyd. Daeth mwy na 110 i'r gynhadledd a fu'n gweithio gyda'r Bartneriaeth Troseddau Casineb i lunio strategaeth a gosod blaenoriaethau. Bu'r CCP yn siarad yn y digwyddiad a lansiwyd strategaeth Troseddau Casineb ar y cyd gydag ystod o ddigwyddiadau ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac ymgyrch  ar draws Manceinion Fwyaf. Mae hyn yn cynnwys brand  Troseddau Casineb sydd wedi cael ei ddatblygu ar y cyd gyda phartneriaid.

Mae staff CPS Llundain yn rhagweithiol wrth sefydlu cysylltiadau gyda phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol a rhanddeiliaid eraill. Mae Erlynydd y Goron y Gangen (BCP) a'r arbenigwyr gangiau yn y fwrdeistref ym Mwrdeistref Enfield yn Llundain wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol, y GIG, yr Heddlu a'r Farnwriaeth fel rhan o'r 'Call-Project'. Mae'r cynllun yn rhan o ddull newydd radical o ymdrin â gangiau stryd yr ardal. Cludir aelodau'r gangiau i'r llys am 'call-in' – techneg a brofwyd yn wreiddiol yn yr Unol Daleithiau lle mae troseddwyr yn cael eu gorfodi i fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'i gilydd gyda swyddogion heddlu, llawfeddygon damweiniau ac argyfwng, cyn-droseddwyr a dioddefwyr troseddau. Y syniad yw eu gorfodi i wynebu canlyniadau eu troseddau ond hefyd cynnig ffordd oddi ar y strydoedd iddyn nhw os byddan nhw'n osgoi trais.

Gwnaeth erlynydd tîm cymunedol CPS Swydd Efrog a Glannau Humber waith gyda'r heddlu i ddatblygu polisi o ran puteindra, blaenoriaeth gymunedol yn Chapeltown, Wortley a Holbeck. Mae'r polisi, sy'n berthnasol i Leeds i gyd i osgoi gweld y broblem yn symud i rannau eraill o'r ddinas, yn cynnig dull cyson o ymdrin â dargyfeirio ac erlyn. Dim ond pan fydd dargyfeirio wedi methu y bydd erlyn puteiniaid y stryd yn cael ei ystyried ac roedd erlynydd y tîm cymunedol wedi bod yn annog yr heddlu i ddefnyddio cwrs 'kerb crawling' mewn achosion addas fel rhan o Rybudd Amodol. Bydd achosion fydd yn cael eu cyhuddo gan yr heddlu yn cynnwys Datganiad Effaith Cymunedol pan fydd hynny'n addas.

Mae gan CPS Swydd Efrog a Glannau Humber fwy o fyrgleriaethau domestig wedi eu cofnodi yn Leeds bob blwyddyn nac yn unrhyw ardal Awdurdod Lleol arall, ac roedd cost hynny yn 2011 yn tua £35miliwn. Penderfynwyd y byddai Datganiad Effaith Cymunedol yn ddefnyddiol i ddarlunio amlder y byrgleriaethau a fyddai wedyn yn galluogi'r llys i osod dedfrydau mwy. Ceir Datganiad Personol Dioddefwr hefyd mewn achosion unigol a'u darllen yn y llys. Mae gan yr Ardal gyfreithiwr penodol i adolygu achosion byrgleriaeth. Mae'r canfyddiadau cychwynnol o ran y cynllun byrgleriaeth yn Leeds yn awgrymu bod y dedfrydau o garchar ar gyfartaledd wedi cynyddu o 18 i 23 mis. Bu erlynydd y tîm cymunedol yn gweithio gyda Busnes yn Erbyn Troseddau Ardal Wakefield, Heddlu Gorllewin Swydd Efrog, ac Uned Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Cyngor Wakefield i allgau troseddwyr cyson o fusnesau lleol. Mae'r cynllun, sydd wedi cael cyhoeddusrwydd yn lleol, yn canolbwyntio ar unigolion sy'n gyfrifol am gyfran sylweddol o'r troseddu yn yr ardal. Os bydd unigolyn yn troseddu tra bydd yn destun rhybudd allgau, mae'r erlynyddion yn rhoi gwybod i'r Llys am fodolaeth y rhybudd allgau ac mae'n debygol o gael ei weld fel nodwedd waethygol, a allai dynnu cosb fwy difrifol. Gellir ei ddefnyddio hefyd i gefnogi cais am Orchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBO).

12.4c Dadansoddiad/tystiolaeth o fanteision busnes yn deillio o waith gyda'r heddlu ac awdurdodau lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, unigolion eraill a etholir yn lleol a phartneriaethau ehangach yn y System Cyfiawnder Troseddol.

**Arfer Da –** Mae gan CPS Llundain brotocolau sydd wedi cael eu llofnodi yn ddiweddar gyda'r Heddlu Metropolitan o ran trais domestig. Mae ymdrin â gangiau yn flaenoriaeth allweddol yn Llundain ac mae Bwrdd Lleihau Troseddu Llundain ar hyn o bryd yn creu strategaeth rhag gangiau trwy Lundain i gyd. Mae'r manteision busnes, a sicrhau canlyniadau positif yn cynnwys rhoi cyfarfodydd briffio ychwanegol wrth gysylltu â phartneriaid i helpu i gyflymu'r prosesau a sicrhau dedfrydau addas. Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r dull gorfodi gangiau, fel cyflwyno proffiliau sy'n peri problem, wedi helpu i gael dedfrydau addas.

Enillodd Uned Anhrefn CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr wobr Staff Genedlaethol y CPS yn 2012. O ganlyniad i'r helyntion trefn gyhoeddus yn 2011, bu'n rhaid i staff CPS fod ar gael i ymdrin â'r gwaith ychwanegol a ddeilliodd o hynny. Roedd angen aelodau o'r staff i weithio mewn llysoedd dros nos a llysoedd ar y Sul, a gofynnwyd iddynt ymdrin â phenderfyniadau cyhuddo tu allan i oriau swyddfa. Gan ymateb yn gyflym iawn i'r digwyddiadau, sefydlwyd tîm o gyfreithwyr gyda rhai yn arwain o ran penderfyniadau cyhuddo ac eraill yn ymdrin ag achosion yn y llys. Yn amlwg cafodd hyn yr effaith o gynhyrchu cynnydd sylweddol mewn gwaith yn swyddfeydd CPS Gorllewin Canolbarth Lloegr o faterion a ymladdwyd a heb eu hymladd yn y Llysoedd ieuenctid, ynadon a'r Goron.

Roedd gan CPS Swydd Efrog a Glannau Humber ddau ddyn canol oed oedd yn aflonyddu ar aelodau amrywiol o gymuned fach yn Egton, pentref yng Ngogledd Swydd Efrog, ers 1989. Bu erlynydd y tîm cymunedol yn gweithio gyda'r heddlu i lunio cais cryf am ASBO i'r ddau ohonynt. O ganlyniad, rhoddwyd gorchmynion ar hyd eu hoes, a fydd yn cael effaith ar hyder y cyhoedd yn y pentref ac yn gwella'r gobaith y bydd tystion yn dod ymlaen yn y dyfodol.

## Blaengaredd

Roedd gan CPS Swydd Efrog a Glannau Humber, yn ardal Walmgate o Gaerefrog nifer anghymesur o ASB yn ymwneud ag alcohol, yn bennaf yn cael eu hachosi gan bobl oedd yn gyfarwydd i'r heddlu ac asiantaethau eraill. Fe wnaeth y Cyngor ddatgan yn gyfreithiol bod yr ardal hon yn Fan Cyhoeddus Dynodedig gan roi pwerau ychwanegol i'r heddlu i atafaelu alcohol mewn rhai amgylchiadau i leihau anhrefn. Lansiodd yr heddlu hefyd Operation Astound ym mis Mehefin, oedd yn targedu'r 20 prif yfwr stryd gyda'r nod o ddatgan eu bod yn "Feddwon Cyson", statws sy'n parhau am dair blynedd. Cynghorodd erlynydd y tîm cymunedol yr heddlu ar Ddatganiad Effaith Cymunedol gyda golwg ar roi gwybodaeth ar gyfer cefnogaeth i benderfyniad Budd y Cyhoedd ASBOau/Gorchmynion Gwahardd Yfed (DBP) a chynorthwyo wrth ddedfrydu.

Mae CPS Swydd Efrog a Glannau Humber yn Hull wedi cyhoeddi mwy o Orchmynion Gwahardd Yfed (102 ers Chwefror 2011) nag unrhyw ddinas arall yn y wlad. Arweiniodd y gwaith at leihad sylweddol mewn troseddau yn gysylltiedig ag alcohol yn y ddinas. Dangosodd archwiliad 'cynt ac wedyn' ymhlith y rhai a dderbyniodd DBO yn ddiweddar:

Ymosodiadau – 175 cynt o'i gymharu â 10 wedyn

Trefn gyhoeddus – 302 cynt o'i gymharu ag 16 wedyn

Troseddau eraill
yn gysylltiedig ag alcohol
(difrod/dwyn) – 100 cynt o'i gymharu ag 14 wedyn.

## Atodiad A – Rheolwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol (EDCEMau)

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp Twyll Canolog | Sarah Parker | Sarah.Parker@cps.gsi.gov.uk |
| CPS Direct | Patrick Berry | Patrick.Berry@cps.gsi.gov.uk |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | Grace Moronfolu | Grace.Moronfolu@cps.gsi.gov.uk |
| Dwyrain Lloegr | Derek Burnett | Derek.Burnett@cps.gsi.gov.uk |
| Llundain | Yvette Williams | Yvette.Williams@cps.gsi.gov.uk |
| Glannau Mersi-Swydd Gaer | Katrina Igbinovia | Katrina.Igbinovia@cps.gsi.gov.uk |
| Gogledd Ddwyrain Lloegr | Caroline Airs | Caroline.Airs@cps.gsi.gov.uk |
| Gogledd Orllewin Lloegr | Stacey Davis | Stacey.Davis@cps.gsi.gov.uk |
| Yr Adran Troseddau Cyfundrefnol | Emma-Jane Charles | Emma-Jane.Charles@cps.gsi.gov.uk |
| De Ddwyrain Lloegr | Victoria McEwan | Victoria.McEwan@cps.gsi.gov.uk |
| De-orllewin Lloegr | Jane Gibney | Jane.Gibney@cps.gsi.gov.uk |
| Adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth | Jill Murray | Jill.Murray@cps.gsi.gov.uk |
| Tafwys a Chiltern | Inderpal Kaur-Singh | Inderpal.Kaursingh@cps.gsi.gov.uk |

| | | |
|---|---|---|
| Cymru | Kim Ann Williamson a Judith Edwards | Kimann.Williamson@cps.gsi.gov.uk a Judith.Edwards@cps.gsi.gov.uk |
| Wessex | Carrie Sanderson | carrie.sanderson@cps.gsi.gov.uk |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | Parveen Hassan | Parveen.Hassan@cps.gsi.gov.uk |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | Lizzy Mills | Lizzy.Mills@cps.gsi.gov.uk |
| Adran Lles a Iechyd Gwledig | Simon Clements | Simon.Clements@cps.gsi.gov.uk |

## Atodiad B Esboniad o’r Termau a Rhestr o Fyrfoddau

| | |
|---|---|
| ASBO | Gorchymyn sifil a wneir yn erbyn unigolyn y profwyd ei fod wedi bod yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yw Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. |
| Fforwm Atebolrwydd Cymunedol (CAF) | Mae’r CAF sy’n cynnwys partneriaid o’r cymunedau allanol, cynrychiolwyr rhwydweithiau’r staff ac aelodau staff CPS yn cwrdd yn chwarterol ac yn darparu dulliau craffu allanol ac atebolrwydd cymunedol ac mae’n fforwm ymgynghorol ar gyfer polisïau a strategaethau’r CPS. |
| Safonau Ansawdd Craidd (CQS) | Mae’r CQS yn nodi, mewn iaith glir, beth yw’r broses erlyn a’r lefel o wasanaeth y gall partneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol ac aelodau o’r cyhoedd eu disgwyl gan y CPS. Rhestrir y safonau yn nhrefn amser o gyngor cynnar ar gychwyn yr achos hyd at apeliadau a chwynion a all ddilyn ar ddiwedd y gweithrediadau. Mae CQS 12 yn cyfeirio’n benodol at ymgysylltiad cymunedol. Mae copi o’r Safonau Ansawdd Craidd ar gael trwy’r ddolen ganlynol: http://www.cps.gov.uk/publications/core_quality_standards/ |
| Cyfathrebu’n Uniongyrchol â Dioddefwyr | Mae’n ofynnol cyfathrebu’n uniongyrchol â dioddefwr trosedd cyn pen pum diwrnod o wneud penderfyniad gan y CPS i beidio â symud ymlaen o ran cyhuddiad penodol neu, pan wneir penderfyniad i newid cyhuddiad yn sylweddol. Yn ychwanegol, dylid cynnig cyfarfod i’r dioddefwr mewn rhai categorïau o achosion. Mae gwasanaeth ychwanegol ar gael ar gyfer dioddefwyr bregus a/neu dan fygythiad, y mae’n rhaid eu hysbysu o fewn un diwrnod gwaith o’r penderfyniad. |
| Deddf Cydraddoldeb (2010) | Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd triniaeth annheg ac yn helpu i gyflawni cyfle cyfartal yn y gweithle ac yn y gymdeithas yn ehangach. Mae’r Ddeddf yn gwahardd triniaeth annheg o ran mynediad at waith a gwasanaethau preifat a chyhoeddus beth bynnag fo oed, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, hil, crefydd neu gred, rhyw, a thueddfryd rhywiol (nodweddion a ddiogelir). |
| Troseddau casineb (gan gynnwys troseddau casineb homoffobaidd a | Trosedd Casineb yw unrhyw drosedd sy’n cael ei hysgogi gan gasineb neu ragfarn ar sail: anabledd, hil, crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol; neu ailbennu rhywedd y dioddefwr. Gellir gweld yr adroddiad diweddaraf ar erlyniadau Troseddau Casineb ar gyfer 2008-09 yn http://www.cps.gov.uk/publications/equality/index.html |

| | |
|---|---|
| thrawsffobaidd, troseddau casineb sy'n cael eu gwaethygu gan hil a chrefydd, troseddau casineb ar sail anabledd) | Gellir gweld Polisi a Chyfarwyddyd ar Droseddau a Ysgogir gan Resymau Hiliol neu Grefyddol yn http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/racerel.html<br><br>Gellir gweld Polisi a Chyfarwyddyd ar droseddau homoffobaidd a thrawsffobaidd yn http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/homophobia.html<br><br>Gellir gweld Polisi a Chyfarwyddyd ar Droseddau Casineb Anabledd yn http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/disability.html<br><br>Gellir gweld y polisi ar gyfer erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn yn http://www.cps.gov.uk/publications/docs/caop_policy.pdf |
| Cydlynwyr Troseddau Casineb | Mae gan bob un o'r 13 Ardal CPS Gydlynwyr Troseddau Casineb i sicrhau bod arweinyddiaeth ar y gwaith ar Droseddau Casineb a hwnnw'n bwydo i mewn i ddulliau llywodraethu Ardaloedd. Mae'r rôl yn cynnwys rheoli perfformiad, ymgysylltiad cymunedol a rhanddeiliaid a gweithredu polisi. |
| Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) | Prif ddiben cynghorwyr trais domestig annibynnol (IDVA) yw ymdrin â diogelwch dioddefwyr sydd mewn perygl mawr o gael niwed gan bartneriaid agos, cynbartneriaid neu aelodau o'r teulu i sicrhau eu diogelwch a diogelwch eu plant. Gan weithio fel prif bwynt cyswllt y dioddefwyr, fel arfer bydd y Cynghorwyr yn gweithio gyda'u cleientiaid o'r eiliad pan ddigwydd yr argyfwng i asesu lefel y risg, trafod y dewisiadau addas sydd ar gael a datblygu cynlluniau diogelwch. |
| LGB | Gall pobl lesbaidd, hoyw a deurywiol fod yn wynebu gwahaniaethu, aflonyddu a thrais o ganlyniad i'w cyfeiriadedd rhywiol yn aml. Lesbiad yw menyw sy'n cael ei denu'n gorfforol, rhywiol a/neu emosiynol at fenywod; dyn hoyw yw dyn sy'n cael ei ddenu'n gorfforol, rhywiol a/neu emosiynol at ddynion; a gall unigolyn deurywiol fod naill ai yn ddyn neu'n ferch sy'n cael ei denu'n gorfforol, rhywiol a/neu emosiynol at ddynion a menywod. |
| Paneli Craffu ac Ymgysylltiad Lleol (LSIP) | O fis Ebrill 2011 mae'r Paneli Craffu Troseddau Casineb a'r Paneli Ymgysylltiad Cymunedol a fu wedi cyfuno i gynnig craffu ar achosion Troseddau Casineb a VAWG sydd wedi eu cwblhau yn rhanbarthol. Defnyddir y gwersi a ddysgwyd i wella erlyniadau |

| | |
|---|---|
| | Troseddau Casineb ag achosion. Mae'r Paneli hefyd yn cynnig fforwm i ymgynghori ar bolisïau a strategaethau. |
| Troseddau wedi eu gwaethygu gan Hiliaeth a Chrefydd | Gall trosedd gael ei diffinio fel un a waethygwyd yn hiliol neu grefyddol os: 1) ar adeg cyflawni'r drosedd, neu yn union cyn neu ar ôl gwneud hynny, bod y troseddwr yn dangos casineb tuag at ddioddefwr y drosedd ar sail aelodaeth (neu aelodaeth dybiedig y dioddefwr) o grŵp hiliol neu grefyddol; neu 2) bod y drosedd wedi ei hysgogi (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) gan elyniaeth tuag at aelod o grŵp hiliol neu grefyddol ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw.<br><br>Mae'r categori troseddau a waethygwyd yn hiliol neu grefyddol ar hyn o bryd yn cynnwys troseddau o niwed corfforol gwirioneddol a niwed corfforol difrifol gyda bwriad; difrod troseddol; ac ymosod heb anaf. |
| Adran 146 | Mae Adran 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn nodi pan fydd trosedd yn seiliedig ar gasineb tuag at anabledd neu anabledd tybiedig neu gyfeiriadedd rhywiol fe fydd hynny'n cael ei ystyried yn ffactor waethygol yn y cyfnod dedfrydu. |
| Deddf Trefn Gyhoeddus | Bwriadwyd y ddeddf droseddol o ran troseddau trefn gyhoeddus i gosbi defnyddio trais a/neu frawychu gan unigolion neu grwpiau. Mae'r prif droseddau trefn gyhoeddus yn cael eu cynnwys yn Rhan I Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 ('y Ddeddf'). |
| Pobl Drawsrywiol | Y term meddygol am bobl nad ydynt yn gyfforddus â'r rôl y disgwylir iddynt ei chyflawnioherwydd eu rhyw corfforol wrth eu geni yw 'Dysfforia Rhywedd'. Disgrifir y rhai sy'n ceisio newid eu hymddangosiad corfforol allanol yn barhaol er mwyn byw yn fwy cyfforddus yn y rôl rhywedd arall fel 'pobl drawsrywiol'.<br><br>Gelwir y broses o newid rôl rywiol fel 'trawsnewid'.<br><br>Roedd yr arfer Americanaidd o ddefnyddio'r term 'trawsryweddol' yn cyfeirio at bobl sy'n mabwysiadu rôl rywiol wahanol i'r un a roddwyd iddyn nhw wrth eu geni, ond heb y diagnosis clinigol ffurfiol a'r rheolaeth sy'n gysylltiedig â'r term 'trawsrywiol'. Fe allant newid y rôl yn barhaol neu dim ond am beth o'r amser.<br><br>Erbyn hyn defnyddir y term 'trawsryweddol' gan lawer o bobl fel term ymbarél. Gair arall yw 'traws'. Mae'n well gan rai ddefnyddio'r gair 'traws' gan ei fod yn osgoi amwysedd ac yn |

| | |
|---|---|
| | cydnabod ystyr benodol wreiddiol 'trawsryweddol'.<br><br>Mae traws fel term ymbarél yn cynnwys pobl drawsrywiol, pobl drawsryweddol, pobl sy'n traws wisgo ac ystod o ffurfiau eraill penodol o hunaniaeth a mynegiant. Mae dieithriaid yn annhebygol o wybod am y gwahaniaethau a gweld rhywun yn syml fel rhywun sy'n groes i'r 'rheolau' rhywedd confensiynol.<br><br>Mae pobl draws felly yn amlwg yn amrywiol. Mae pobl yn amgyffred ac yn mynegi eu hunaniaeth ryweddol mewn ffyrdd gwahanol. Ond mae'r profiad o wahaniaethu, aflonyddu, erlid neu ganlyniadau niweidiol yn gyffredin i'r holl bobl draws. (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol) |
| Cod y Dioddefwyr | Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau sy'n nodi'r gwasanaethau y gall dioddefwyr ddisgwyl eu derbyn gan y System Cyfiawnder Troseddol. Mae copi o'r Cod Dioddefwyr ar gael trwy'r ddolen ganlynol: Dioddefwyr a Thystion: Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau (Cod y Dioddefwyr) |
| Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) | Nod y strategaeth yw sicrhau bod yr ymateb i ystod o droseddau sy'n disgyn dan y term ymbarél o Droseddau yn Erbyn Menywod a Merched yn cael eu cydlynu a'u herlyn yn well. Hawliau dynol yw'r egwyddorion sy'n sylfaen i ddatblygiad gwaith Trais yn Erbyn Menywod a Merched, gan dynnu ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r Deyrnas Unedig wedi eu llofnodi a'u cadarnhau.<br><br>Er bod y strategaeth hon yn canolbwyntio ar fenywod a merched fel dioddefwyr, mae'r CPS yn hollol ymwybodol y gall dynion hefyd fod yn ddioddefwyr (fel mewn achosion o dreisio a thrais domestig). Bydd y dioddefwyr hyn yn cael yr un mynediad at eu diogelu ac iawndal cyfreithiol.<br><br>Mae Trais yn Erbyn Menywod a Merched yn cynnwys y llinynnau canlynol: trais domestig, aflonyddu, treisio, troseddau rhywiol, trais ar sail anrhydedd, priodas trwy orfodaeth, Anffurfio Organau Rhywiol Menywod, masnachu mewn pobl, pornograffi, puteindra, a cham-drin plant.<br><br>http://www.cps.gov.uk/publications/docs/vaw_strategy_english.pdf<br><br>Gellir gweld yr adroddiad diweddaraf ar erlyniadau trais yn erbyn menywod a merched am 2009/10 yn |

| | |
|---|---|
| | http://www.cps.gov.uk/publications/equality/vaw/index.html |

| | |
|---|---|
| Sicrwydd Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) | Ers Ionawr 2011, fel rhan o reoli Perfformiad Ardaloedd, mae Prif Erlynyddion y Goron yn darparu adroddiadau sicrhau ansawdd bob chwe mis i'r Prif Swyddog Gweithredol ar eu herlyniadau VAWG, ac mae'r cyfan yn cael eu hadolygu gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae hyn yn cysylltu â Monitro Safonau Ansawdd Craidd, sy'n cynnwys yr holl droseddau VAWG, gyda'r prif ffocws ar drais domestig, treisio a throseddau rhywiol. Mae'n cynnwys asesiad ansoddol o tua 25 y cant o erlyniadau treisio. Mae'r sicrhau ansawdd yn ymdrin ag unrhyw broblemau a nodir gydag atebion arfaethedig a sylwadau ar unrhyw amrywiad rhwng ardaloedd heddluoedd, fel sy'n briodol. |
| Cydlynwyr Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) | Mae'r 13 Ardal wedi dewis Cydlynwyr VAWG i sicrhau bod arweiniad ar waith VAWG a'i fod yn bwydo i mewn i ddulliau llywodraethu'r Ardal. Mae'r rôl yn cynnwys rheoli perfformiad, ymgysylltiad cymunedol â rhanddeiliaid a gweithredu polisi. |

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| ACPO | Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu |
| ASB | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol |
| BCP | Erlynydd y Goron Cangen |
| CAF | Fforwm Atebolrwydd Cymunedol |
| CCP | Prif Erlynydd y Goron |
| CIS | Datganiad Effaith Cymunedol |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| CPS | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| CQS | Safonau Ansawdd Craidd |
| DA | Cam-drin Domestig |
| DBO | Gorchymyn Gwahardd Yfed |
| DCCP | Dirprwy Brif Erlynydd y Goron |
| DHC | Troseddau Casineb Anabledd |
| DPP | Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus |
| DV | Trais Domestig |
| EDCEM | Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth ac Ymgysylltiad Cymunedol |
| FGM | Anffurfio Organau Rhywiol Menywod |
| FM | Priodas Dan Orfod |
| HBV | Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd |
| HCC | Cydlynwyr Troseddau Casineb |
| HMCPSI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMCTS | Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi sy'n rhoi cefnogaeth i weinyddu cyfiawnder mewn llysoedd a thribiwnlysoedd. |
| IDVA | Cynghorwr Trais Domestig Annibynnol |
| ISVA | Cynghorwr Trais Rhywiol Annibynnol |
| IUC | Cyfweliad Dan Rybudd |
| LCJB | Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol |
| LGBT | Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsryweddol |
| LSIP | Paneli Craffu ac Ymgysylltiad Lleol |
| PAID | Cyfarwyddiaeth Atebolrwydd a Chynhwysedd Cyhoeddus |
| PCC | Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |
| SARC | Canolfan Gyfeirio Ymosodiad Rhywiol |
| TOR | Cylch Gorchwyl |
| VAWG | Trais yn erbyn Menywod a Merched |
| VIB | Swyddfa Wybodaeth Dioddefwyr |
| VPS | Datganiad Personol y Dioddefwr |
| WCO | Swyddog Gofal Tystion |
| WCU | Uned Gofal Tystion |